

Cadeirydd Annibynnol ac Aelodau Annibynnol

Partneriaeth Actif Canolbarth y De - Panel Buddsoddi

Pecyn i Ymgeiswyr

Dyddiad cau: Dydd Sul 8 Tachwedd

Cyfweliadau: Wythnos yn dechrau 23 Tachwedd

Neges gan Gadeirydd Partneriaeth Actif Canolbarth y De

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am ddangos diddordeb ym Mhanel Buddsoddi Partneriaeth Actif Canolbarth y De. Mewn partneriaeth â Chwaraeon Cymru, sefydlwyd Partneriaeth Actif Canolbarth y De (CSAP) yn 2024 i helpu mwy o bobl ar draws ein rhanbarth i fwynhau a chael mynediad at weithgarwch corfforol.

Mae ein huchelgais yn syml ond yn feiddgar: gwneud symud y corff yn rhan o fywyd bob dydd a chreu rhanbarth hapusach ac iachach.

Mae symud i Bartneriaethau Rhanbarthol yn rhoi cyfle unigryw i ni fynd i'r afael â heriau lleol ar draws Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg a Chaerdydd. Byddwn yn mabwysiadu dull rhanbarthol cydweithredol o ddiwallu anghenion lleol er mwyn i ni allu lleihau anghydraddoldebau mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae CSAP yn gweithredu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, o dan fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw. Wrth galon y strwythur hwn mae Bwrdd Cyfarwyddwyr medrus, cynhwysol ac amrywiol, a fydd yn gweithio gyda'n partneriaid i lunio a chyflawni ein cyfeiriad strategol.

Mae ein strwythur llywodraethu yn cynnwys gwirfoddolwyr angerddol sy'n cyfrannu eu hamser, eu profiad a'u harbenigedd i'n helpu i gyflawni ein nodau. Er mwyn llywodraethu'n effeithiol a pharhau i fod yn flaengar, rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth o ran persbectif ac ymrwymiad i gynhwysiant. Mae'n hanfodol bod gennym amrywiaeth o ran persbectif i lywodraethu'n effeithiol, ac i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn sefydliad blaengar, cynhwysol sydd wedi ymrwymo i gyflawni ein gweledigaeth.

Rydym nawr yn recriwtio Cadeirydd Annibynnol ac Aelodau Annibynnol i ymuno â Phanel Buddsoddi newydd a fydd yn bwyllgor sefydlog yn ein strwythur llywodraethu. Gan weithio ochr yn ochr ag Aelodau'r Bwrdd, bydd y panel hwn yn helpu i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei gyfeirio'n dryloyw, yn effeithiol ac yn unol â gweledigaeth, cenhadaeth a blaenoriaethau strategol CSAP.

Os ydych chi'n angerddol dros wneud symud yn rhan o fywyd bob dydd, wedi ymrwymo i gynhwysiant, ac eisiau gwneud gwahaniaeth yn ein rhanbarth - ac os ydych chi'n barod i hyrwyddo, herio a chefnogi ein gwaith - byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

Cofion cynnes,

Yr Athro Leigh Robinson

Cadeirydd, Partneriaeth Actif Canolbarth y De



Gwybodaeth am Bartneriaeth Actif Canolbarth y De

Mae Partneriaeth Actif Canolbarth y De (CSAP) yn darparu arweinyddiaeth strategol ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau corfforol ar draws y rhanbarth (Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerdydd a Bro Morgannwg).

Rydym yn credu bod cael pobl i symud eu cyrff yn gallu arwain at fanteision pellgyrhaeddol i bobl ac i gymunedau. Yn ein rhanbarth ni, mae’n sbardun pwerus ar gyfer llesiant, cysylltiad a chyfleoedd.

Er hynny mae gormod o bobl yn y rhanbarth yn methu’r manteision hyn ac mae rhai grwpiau’n llawer llai tebygol o elwa ar fanteision symud y corff nag eraill.


Dyna pam ein bod ni’n gwneud pethau’n wahanol. Rydym yn gwneud mwy na newid rhaglenni neu brosiectau yn unig, rydym yn ail-lunio sut mae systemau’n gweithio, sut mae partneriaid yn cydweithio a sut mae stori symud y corff yn cael ei hadrodd. Rydym yn adeiladu ar lwyddiant ac yn archwilio syniadau newydd. Drwy weithio mewn ffyrdd newydd a herio hen fodelau, rydym yn gwneud symud y corff yn rhan o fywyd bob dydd i ragor o bobl, mewn rhagor o lefydd.

Mae ein huchelgais yn syml ond yn feiddgar: gwneud symud y corff yn rhan o fywyd bob dydd a chreu rhanbarth hapusach ac iachach.

Beth yw ein hamcanion strategol?

Rydym ni’n gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i ddiffinio amcanion strategol wrth i ni ddatblygu ein strategaeth. Yn y cyfamser, rydym yn canolbwyntio ar ddatblygu:

- Cymdeithasau Actif - Normau ac Agweddau Cymdeithasol
- Amgylcheddau Actif - Gofod a Lleoedd
- Pobl Actif - Rhaglenni a Chyfleoedd
- Systemau Actif - Galluogwyr Llywodraethu a Pholisi



Cadeirydd Annibynnol - Panel Buddsoddi

Pwrrpas y Rôl

Mae’r Panel Buddsoddi yn un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd ac mae’n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi buddsoddiad strategol adnoddau.

Mae’r Cadeirydd Annibynnol yn darparu arweiniad i’r Panel Buddsoddi ac mae’n gyfrifol am sicrhau bod y Panel yn gweithredu’n effeithiol, yn dryloyw ac yn unol â’r Cylch Gorchwyl.

Gan weithio ochr yn ochr ag Aelodau’r Bwrdd, yr Aelodau Annibynnol a’r Tîm Gweithredol, bydd y Cadeirydd Annibynnol yn meithrin diwylliant cynhwysol, yn hwyluso trafodaethau o ansawdd uchel, yn sicrhau bod cymorth a her yn cael eu rhoi ar waith ac yn rhoi sicrwydd i’r Bwrdd bod penderfyniadau buddsoddi yn gadarn, yn seiliedig ar wybodaeth ac yn alinio ag amcanion strategol CSAP.

Mae’r rôl yn darparu cyfle i ddylanwadu ar sut gall buddsoddi mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol a symud gyfrannu at ganlyniadau gwell i gymunedau ledled Canol De Cymru.



Arweinyddiaeth

- Cadeirio cyfarfodydd y Panel Buddsoddi a sicrhau bod y Panel yn gweithredu’n effeithiol.
- Meithrin diwylliant cynhwysol sy’n hyrwyddo trafodaethau adeiladol, craffu a gwneud penderfyniadau sy’n seiliedig ar fewnwelediadau.
- Gweithio gyda’r Tîm Gweithredol i bennu agendâu ac i flaengynllunio.
- Sicrhau bod y Panel yn cyflawni ei gyfrifoldebau o dan ei Gylch Gorchwyl.

Penderfyniadau Buddsoddi

- Arwain y Panel i adolygu cynigion ac argymhellion buddsoddi.
- Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn alinio ag amcanion strategol, egwyddorion buddsoddi a chanlyniadau rhanbarthol CSAP.
- Hwyluso’r broses o wneud penderfyniadau ar sail mewnwelediadau, gan sicrhau ystyriaeth briodol i effaith, tegwch, gwerth cyhoeddus a risg.
- Cefnogi’r gwaith o ddatblygu a gwella dull buddsoddi CSAP yn barhaus.

Llywodraethu a Sicrwydd

- Sicrhau bod gwrthdaro rhwng buddiannau yn cael ei oruchwyllo a’i reoli’n briodol ym mhenderfyniadau’r Panel.
- Goruchwyllo’r gwaith o adrodd ar benderfyniadau, argymhellion a sicrwydd y Panel.
- Sicrhau bod y Panel yn gweithredu’n effeithiol ac yn parhau i gydymffurfio â’i gyfrifoldebau llywodraethu.

Ymgysylltu â’r Bwrdd a Rhanddeiliaid

- Gweithredu fel y prif gyswllt rhwng y Panel Buddsoddi a’r Bwrdd.
- Adrodd ar argymhellion, penderfyniadau a materion allweddol sydd angen sylw’r Bwrdd.
- Meithrin perthynas gadarnhaol gydag Aelodau’r Bwrdd, Aelodau Annibynnol a’r Tîm Gweithredol.
- Bod yn Llysgennad ar gyfer CSAP, gan gefnogi ei weledigaeth a’i werthoedd.

Cadeirydd Annibynnol - Manyleb y Person



Profiad Hanfodol

- Profiad o wneud penderfyniadau strategol, llywodraethu, buddsoddi, comisiynu, dyrannu grantiau neu adnoddau.
- Profiad o lywodraethu, goruchwyllo a sicrwydd sefydliadol.
- Profiad o arwain trafodaethau a chefnogi penderfyniadau sy’n cynnwys blaenoriaethau cymhleth neu flaenoriaethau sy’n cystadlu â’i gilydd.
- Profiad o werthuso cynigion, rhaglenni, achosion busnes neu geisiadau am gyllid.
- Profiad o asesu effaith, canlyniadau, risg a gwerth cyhoeddus.

Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol

- Sgiliau arwain, hwyluso a dylanwadu.
- Y gallu i ddehongli gwybodaeth a gwneud penderfyniadau cytbwys sy’n seiliedig ar dystiolaeth.
- Y gallu i herio’n annibynnol a chraffu’n wrthrychol.
- Dealltwriaeth o egwyddorion llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu cadarn.
- Y gallu i ystyried blaenoriaethau strategol, ochr yn ochr â realiti gweithredol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Profiad Dymunol

- Profiad ym maes chwaraeon, gweithgarwch corfforol, iechyd, llesiant neu ddatblygu cymunedol.
- Profiad o amgylcheddau sector cyhoeddus, elusennol neu a ariennir gan grantiau.
- Gwybodaeth am fuddsoddi cymdeithasol, comisiynu neu fesur effaith.
- Profiad o fynd i’r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i gymunedau sy’n cael eu tangynrychioli.
- Y gallu i siarad / cyfathrebu yn y Gymraeg.

Priodweddau Personol

- Lefelau uchel o uniondeb a phroffesiynoldeb.
- Yn annibynnol ac yn wrthrychol wrth farnu.
- Strategol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.
- Cydweithredol a pharchus o ran gwahanol safbwyntiau.
- Ymrwymiad i dryloywder, tegwch ac atebolrwydd.
- Yn angerddol dros wella canlyniadau i bobl a chymunedau.

Aelodau Annibynnol - Panel Buddsoddi

Pwrpas y Rôl

Mae'r Panel Buddsoddi yn un o bwyllgorau sefydlog y Bwrdd ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gefnogi buddsoddiad strategol adnoddau.

Mae Aelodau Annibynnol yn darparu goruchwyliaeth wrthrychol, arbenigedd allanol a her adeiladol i gefnogi penderfyniadau buddsoddi sy'n sicrhau'r effaith fwyaf bosibl ar draws y rhanbarth. Gan weithio ochr yn ochr ag Aelodau'r Bwrdd, bydd yr Aelodau Annibynnol yn helpu i sicrhau bod buddsoddiad yn cael ei gyfeirio'n dryloyw, yn effeithiol ac yn unol â gweledigaeth, cenhadaeth a blaenoriaethau strategol CSAP.

Mae'r rôl yn darparu cyfle i ddylanwadu ar sut gall buddsoddi mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol a symud gyfrannu at ganlyniadau gwell i gymunedau ledled Canol De Cymru.



Penderfyniadau Buddsoddi

- Adolygu ac asesu cynigion buddsoddi ac achosion busnes a gyflwynir i'r Panel Buddsoddi, yn unol ag egwyddorion buddsoddi a blaenoriaethau rhanbarthol.
- Gwerthuso canlyniadau, effaith a gwerth cyhoeddus disgwyliedig y buddsoddiadau arfaethedig.
- Adolygu a chymeradwyo dulliau o ddyrannu buddsoddiadau, gan gynnwys comisiynu a phrosesau sy'n seiliedig ar ddyfarniadau.
- Sicrhau bod penderfyniadau buddsoddi yn seiliedig ar dystiolaeth, yn dryloyw ac yn deg.

Llywodraethu a Sicrwydd

- Craffu'n annibynnol a herio'n adeiladol i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau cadarn.
- Cefnogi'r Panel i roi sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch cymhwyso buddsoddiadau.
- Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu egwyddorion buddsoddi a dull buddsoddi.

Cyfraniad Strategol

- Dod â mewnwleddiad, gwybodaeth a phrofiad allanol i drafodaethau Panel.
- Ystyried sut gall buddsoddiad gefnogi newid tymor hir yn y system a chanlyniadau gwell ar draws y rhanbarth.
- Hyrwyddo dulliau sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac sy'n cynyddu cyfranogiad mewn chwaraeon, gweithgarwch corfforol a symud.

Aelodau Annibynnol - Manyleb y Person



Profiad Hanfodol

- Profiad o wneud penderfyniadau strategol, llywodraethu, buddsoddi, comisiynu, dyrannu grantiau neu adnoddau.
- Profiad o werthuso cynigion, rhaglenni, achosion busnes neu geisiadau am gyllid.
- Profiad o asesu effaith, canlyniadau, risg a gwerth cyhoeddus.

Gwybodaeth a Sgiliau Hanfodol

- Y gallu i ddehongli gwybodaeth a gwneud penderfyniadau cytbwys sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Y gallu i herio'n annibynnol a chraffu'n wrthrychol.
- Dealltwriaeth o egwyddorion llywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau.
- Sgiliau rhyngpersonol a chyfathrebu cadarn.
- Y gallu i ystyried blaenoriaethau strategol ochr yn ochr â realiti gweithredol.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

Profiad Dymunol

- Profiad ym maes chwaraeon, gweithgarwch corfforol, iechyd, llesiant neu ddatblygu cymunedol.
- Profiad o amgylcheddau sector cyhoeddus, elusennol neu a ariennir gan grantiau.
- Gwybodaeth am fuddsoddi cymdeithasol, comisiynu neu fesur effaith.
- Profiad o fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella canlyniadau i gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli.
- Y gallu i siarad / cyfathrebu yn y Gymraeg.

Priodweddau Personol

- Lefelau uchel o uniondeb a phroffesiynoldeb.
- Yn annibynnol ac yn wrthrychol wrth farnu.
- Strategol ac yn canolbwyntio ar y dyfodol.
- Cydweithredol a pharchus o ran gwahanol safbwyntiau.
- Ymrwymiad i dryloywder, tegwch ac atebolrwydd.
- Yn angerddol dros wella canlyniadau i bobl a chymunedau.

Rhagor o Wybodaeth

Ymrwymiad Amser

Mae’r Panel Buddsoddi yn cyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd ychwanegol yn cael eu cynnull yn ôl yr angen. Disgwylir i Aelodau wneud y canlynol:

- Ymgymryd â gweithgareddau ymsefydlu a datblygu parhaus fel y bo’n briodol.
- Mynychu cyfarfodydd naill ai wyneb yn wyneb, ar-lein neu drwy drefniant hybrid.
- Adolygu papurau a dogfennau ategol cyn mynychu cyfarfodydd.
- Cymryd rhan mewn penderfyniadau ysgrifenedig rhwng cyfarfodydd lle bo angen.

Yr ymrwymiad a ragwelir ar gyfer y Cadeirydd Annibynnol yw tua 4-6 diwrnod y flwyddyn, ac ar gyfer Aelodau Annibynnol tua 4 diwrnod y flwyddyn.

Tymor

Tair blynedd yw tymor y swydd, a chaiff Aelodau wasanaethu am uchafswm o ddau dymor.

Cydnabyddiaeth ariannol

Gwirfoddol. Telir costau teithio a chynhaliaeth ar ein cyfraddau safonol, yn unol â’n Polisi Teithio a Chynhaliaeth.

Dysgu a Datblygu

Bydd rhaglen ymsefydlu’n cael ei darparu; bydd y manylion yn cael eu rhannu cyn eich cyfarfod cyntaf. Gwahoddir y Cadeirydd Annibynnol ac Aelodau Annibynnol y Panel i ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu bob blwyddyn.

Amrywiaeth, Tegwch a Chynhwysiant

Rydym yn gwerthfawrogi ac yn dathlu amrywiaeth yn ei holl ffurfiau ac rydym wedi ymrwymo i greu strwythur llywodraethu cynhwysol lle gall pawb gyfrannu a ffynnu.

Rydym yn croesawu’n arbennig geisiadau gan unigolion sy’n dod â phrofiadau, safbwyntiau a chefnidiroedd amrywiol, gan gynnwys y rheini nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol ar hyn o bryd mewn rolau llywodraethu a gwneud penderfyniadau.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein proses recriwtio yn gynhwysol ac yn hygyrch. Anogir ymgeiswyr sydd angen addasiadau ar unrhyw adeg i roi gwybod i ni fel y gellir gwneud trefniadau priodol.



Y Broses Recriwtio



Os hoffech drafod y swydd cyn cyflwyno cais, cysylltwch â Luke Robért yn y lle cyntaf a fydd yn fwy na pharod i helpu:

Luke Robért

luke.robert@acornbysynergie.com
07551 353 260

Hysbysiad Preifatrwydd

Drwy gyflwyno eich cais, rydych yn cytuno i Acorn by Synergie brosesu eich data personol at ddibenion recriwtio. I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch yr [Hysbysiad Preifatrwydd ar ein gwefan](#).

Rydym wedi ymrwymo i gydnabod pob cais ac edrychwn ymlaen at ystyried eich cais chi.

Diolch i chi am ddangos diddordeb mewn cyfrannu at lwyddiant Partneriaeth Actif Canolbarth y De. Pob lwc gyda'ch cais.

Gwnewch gais ar-lein a bydd ymgynghorydd o Acorn yn cysylltu â chi i ddweud mwy wrthyh chi ac i drafod y camau nesaf.

Dylech fod yn ymwybodol y bydd gofyn i chi ddarparu'r canlynol fel rhan o'ch cais:

1. CV wedi'i ddiweddarau.
2. Datganiad ategol (heb fod yn hirach nag un tudalen) yn amlinellu pam eich bod yn dymuno ymuno â'r Panel Buddsoddi, a'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad y byddech yn eu cynnig, gan ystyried manyleb y person.

Yn eich datganiad ategol, rhowch wybod i ni os hoffech wneud cais am y swydd Cadeirydd Annibynnol neu gael eich ystyried ar gyfer rôl Aelod Annibynnol.

Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau: Hanner nos, dydd Sul 8 Tachwedd.

Cyfweliadau:

Wythnos yn dechrau 23 Tachwedd, dros Microsoft Teams.